Mesurau ac arian

Cyfnod Sylfaen - Ystod	Meithrin	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Cyfnod Allweddol 2 - Ystod	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4
Deall a defnyddio mesurau: ***Cymharu a threfnu dau neu ragor o wrthrychau yn ôl màs neu hyd/uchder drwy arsylwi arnynt yn uniongyrchol, a deall a defnyddio mesurau ar gyfer cynhwysedd a chyfaint trwy lenwi neu wacáu cynwysyddion*** ***Defnyddio unedau ansafonol unffurf at ddibenion cymharu, a gweld bod angen unedau safonol i fesur; defnyddio unedau metrig safonol ar gyfer hyd, màs a chynhwysedd.*** ***Dewis unedau ac offer sy'n briodol i dasg fesur berthnasol; darllen graddfa yn weddol gywir.***	Dechrau cymharu priodweddau ffisegol gwrthrychau. Defnyddio geiriau cyfarwydd i ddisgrifio maint a mesurau.	Cymharu a threfnu dau neu ragor o wrthrychau drwy eu harsylwi'n uniongyrchol. Dangos dealltwriaeth o eiriau, arwyddion a symbolau sy'n disgrifio maint a safleoedd.	Mesur a threfnu gwrthrychau gan ddefnyddio cymhariaeth union. Defnyddio unedau ansafonol unffurf i fesur. Dechrau defnyddio rhai unedau safonol ac offer mesur mewn cyd-destunau ymarferol, e.e. ffyn metr, jygiau litr.	Defnyddio unedau ansafonol a safonol bob dydd i fesur hyd, màs a chynhwysedd. Defnyddio offer mesur. Gwybod y berthynas rhwng metrau a chentimetrau, cilogramau a gramau, litrau a mililitrau. Darllen graddfa seml i'r rhaniad agosaf a nodir, gan gynnwys defnyddio pren mesur i'r centimetr agosaf.	**Deall a defnyddio mesurau:** ***Dewis unedau safonol priodol o hyd, màs, cyfaint a chynhwysedd, tymheredd, arwynebedd ac amser*** ***Deall y perthnasoedd rhwng unedau, a throsi un uned fetrig i un arall*** ***Gwybod cywerthoedd metrig bras yr unedau imperial sy'n dal i gael eu defnyddio bob dydd*** ***Dehongli rhifau ar raddfeydd a darllen graddfeydd yn fwyfwy manwl gywir; deall a defnyddio graddfa mewn mapiau a lluniadau syml*** ***Llunio a mesur onglau*** ***Darganfod perimedrau siapiau syml; darganfod arwynebeddau a chyfeintiau trwy gyfrif a dulliau ymarferol eraill***	Defnyddio unedau safonol i fesur hyd, màs a chynhwysedd. Gwybod y berthynas rhwng cilometrau a metrau, metrau a chentimetrau, cilogramau a gramau, litrau a mililitrau. Darllen graddfeydd i'r rhaniad agosaf (a nodir neu heb ei nodi), gan gynnwys defnyddio pren mesur i luniadu a mesur llinellau i'r hanner centimetr agosaf.	Defnyddio unedau safonol ar gyfer hyd, cynhwysedd a màs a defnyddio offer addas i amcangyfrif a mesur. Gwybod a defnyddio'r berthynas rhwng unedau cyfarwydd o hyd, màs a chynhwysedd ac awgrymu unedau addas. Darllen clorian fesur i'r rhaniad agosaf. Darganfod perimedr siapau, arwynebedd drwy gyfrif sgwariau.
Gwybod pa amser o'r dydd yw hi mewn perthynas â gweithgareddau dyddiol rheolaidd; deall treigl amser mewn perthynas â gweithgareddau dyddiol a digwyddiadau bywyd. ***Gwybod dyddiau'r wythnos a misoedd a thymhorau'r flwyddyn, a'u rhoi yn eu trefn.*** ***Rhoi dau neu ragor o ddigwyddiadau cyfarwydd mewn trefn.*** ***Dweud yn raddol faint o'r gloch yw hi i'r chwarter awr agosaf ar gloc analog, a chysylltu hynny ag amser digidol***	Dechrau gwybod adegau allweddol y dydd.	Dangos ymwybyddiaeth o amser mewn perthynas â'u gweithgareddau bob dydd. Bod yn ymwybodol o iaith amser cloc mewn rhigymau a storïau.	Gwybod bod wythnos yn hafal i 7 dydd a bod dydd yn hafal i 24 awr. Gwybod dyddiau'r wythnos. Rhoi digwyddiadau yn eu trefn. Darllen yr amser i'r awr a'r hanner awr ar gloc analog. Gwneud amcangyfrifon a'u gwirio, gan ddefnyddio amseryddion syml.	Gwybod bod awr yn hafal i 60 o funudau a bod 1 funud yn hafal i 60 o eiliadau. Gwybod misoedd a thymhorau'r flwyddyn. Darllen yr amser i'r hanner neu chwarter awr ar gloc analog a chloc digidol.	***Darllen yr amser ar glociau analog a digidol; defnyddio amserlenni a throsi rhwng cloc 12 a 24 awr; cyfrifo gwahaniaeth amser***	Gwybod bod blwyddyn yn hafal i 365 o ddyddiau neu 52 wythnos neu 12 mis. Ysgrifennu dyddiadau'n gywir. Darllen yr amser i'r pum munud agosaf ar glociau analog a chlociau digidol. Defnyddio amseryddion syml mewn sefyllfaoedd ymarferol.	Gwybod bod mileniwm yn hafal i 1000 o flynyddoedd a bod canrif yn hafal i gan mlynedd. Darllen calendrau ac amserlenni. Darllen yr amser (analog i'r funud agosaf a 12 awr ar gloc digidol). Defnyddio am/pm a nodiant digidol. Amcangyfrif/gwirio amseroedd gan ddefnyddio eiliadau, munudau ac oriau.
Deall a defnyddio arian: ***Datblygu ymwybyddiaeth o werth arian a'r defnydd a wneir ohono, a hynny trwy Gyfrwng gweithgareddau chwarae rôl i ddechrau*** ***Adnabod, didoli a defnyddio arian mân; cyfrifo cyfansymiau a rhoi newid.***	Yn eu gweithgareddau chwarae, byddant yn datblygu ymwybyddiaeth o ddiben arian.	Adnabod, didoli a defnyddio darnau arian.	Byddant yn ymwybodol o werthoedd gwahanol ddarnau arian. Darganfod cyfansymiau a rhoi newid i 10c Datrys problemau gan ddefnyddio arian mewn cyd-destunau ymarferol.	Cyfnewid darnau arian am ddarnau o'r un gwerth. Darganfod cyfansymiau a rhoi newid o luosrifau o 10c. Dechrau defnyddio nodiant £.c. Defnyddio strategaethau pen i ddatrys problemau arian.	**Deall a defnyddio arian:** ***Gwybod a defnyddio'r dull confensiynol o gofnodi arian*** ***Darganfod atebion bras i'r pedwar gweithrediad, a'u defnyddio i ddatrys problemau sy'n ymwneud ag arian.*** ***Deall dangosydd cyfrifiannell mewn perthynas ag arian, e.e. bod dangosydd 21.4 (punt) yn golygu £21.40*** ***Bod yn ymwybodol o arian cyfred arall.***	Adnabod gwerth papurau £5, £10 ac £20. Darganfod cyfansymiau a rhoi newid o £1. Defnyddio nodiant degol wrth gofnodi arian. Datrys problemau geiriau syml sy'n ymwneud ag arian.	Trosi punnoedd yn geiniogau ac i'r gwrthwyneb. Defnyddio pedair gweithred i ddatrys problemau sy'n ymwneud ag arian.